

Format Cydnabyddiaeth Sylfaenol o ddefnydd offeryn deallusrwydd artiffisial:

Rwy'n cadarnhau nad ydw i wedi cyflwyno unrhyw destun deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol fel fy ngwaith fy hun.

Gwerthusiad Feirniadol o Ddull Reggio Emilia: Cyfleoedd a Rhwystrau ar gyfer Cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru

Cyflwyniad:

Datblygwyd dull Reggio Emilia yn yr Eidal ar ôl yr Ail Ryfel Byd o dan ddylanwad Loris Malaguzzi, ac fe'i cydnabyddir am ei haddysgeg blynyddoedd cynnar arloesol ac am ei bwyslais ar asiantaeth plant, dysgu cydweithredol, yn ogystal â rôl yr amgylchedd fel 'y trydydd athro' (Cameron, 2022). Er i'r model ddod i'r amlwg o gyd-destun cymdeithasol-wleidyddol penodol yng ngogledd yr Eidal, dywed Chicken (2023) bod ei egwyddorion wedi atseinio'n fyd-eang, yn enwedig mewn systemau addysgol sydd o blaid arferion sydd yn fwy cyfannol, cyfranogol a chreadigol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru 2024 a) yn yr un modd yn rhagflaenu egwyddorion ymreolaeth, creadigrwydd, a dysgu drwy brofiad, gan anelu at feithrin dinasyddion sydd yn uchelgeisiol, galluog, creadigol a moesegol. Mae ei gweledigaeth yn ôl Chicken (2023) yn cyd-fynd yn gryf â rhai o syniadau sylfaenol athroniaeth Reggio Emilia, yn enwedig yn ei phwyslais ar ymreolaeth dysgwyr, creadigrwydd, ac ymgysylltiad gweithredol â'r byd. Wrth i'r ddau fframwaith hyrwyddo delfrydau pedagogaid tebyg, mae angen archwiliad cymharol ddyfnach. Mae hyn yn codi'r cwestiwn 'i ba raddau y mae dull Reggio Emilia yn cynnig fframwaith hyfyw i gefnogi, gwella neu herio'r Cwricwlwm i Gymru?' Bydd y traethawd yma yn gwerthuso yn feirniadol ymagwedd Reggio Emilia o ran y cyfleoedd a'r rhwystrau y mae'n eu cyflwyno ar gyfer cefnogi agweddau allweddol ar y Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar asiantaeth dysgwyr a chreadigrwydd o fewn y celfyddydau mynegiannol. Trwy'r dadansoddiad hwn, bydd y drafodaeth yn tynnu ar ymchwil empirig gyfoes, fframweithiau polisi, a safbwyntiau damcaniaethol i asesu'r cydnawsedd athronyddol ac ymarferol rhwng y ddau fodel.

Trosolwg o'r dull Reggio Emilia:

Dywed Cameron (2022) mae dull Reggio Emilia, a ddatblygwyd yn ninas Eidalaid Reggio Emilia ar ôl yr Ail Ryfel Byd o dan arweiniad yr addysgwr Loris Malaguzzi, yn athroniaeth addysg plentyndod cynnar sydd wedi'i gwreiddio mewn egwyddorion democrataidd ac adeiladol. Adeilada Edwards, Gandini & Forman (2012) ar hyn drwy ychwanegu ei fod yn pwysleisio delwedd y plentyn fel un sydd yn alluog, cymwys, a llawn botensial, ac mae'n annog addysgwyr i weld dysgu fel proses sydd wedi'i llunio ar y cyd a ffurfiwyd gan berthnasoedd rhwng plant, athrawon, teuluoedd, a'r amgylchedd.

Awgryma Tedeschi, Maccaferri a Rabotti (2021) fod y gred mewn 'cant o ieithoedd plant' yn ganolog i ddull Reggio Emilia, mae'n cydnabod ffurfiau lluosog o fynegiant, gan gynnwys y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, symud a drama (Hanna, 2016). Dadleua nid yw'r celfyddydau mynegiannol yn ategol ond maent yn rhan annatod o wneud ystyr a llunio gwybodaeth. Mynna Roque a Tamashiro (2022) bod dogfennaeth hefyd yn chwarae rhan hanfodol, gan wasanaethu fel arf addysgegol ac yn fodd i wneud dysgu yn weladwy. Yn debyg, dywed Rinaldi (2022) bod yr amgylchedd a chaiff ei adnabod fel y 'trydydd athro' yn cael eu cynllunio'n fwriadol i ysgogi chwilfrydedd, cydweithio a chreadigrwydd.

Awgryma Giamminuti *et al.*, (2021) caiff athrawon o fewn Reggio Emilia ei ystyried nid fel cyflwynwyr cynnwys ond fel hwyluswyr, ymchwilwyr, a chyd-ddysgwyr. Adeilada Rinaldi (2022) ar hyn wrth ychwanegu bod prosiectau'n deillio o ddiddordebau plant, gan arwain at gwricwla newydd sydd yn seiliedig ar ymholi sydd yn esblygu mewn modd organig. Yn yr un modd, dywed Vecchi (2010) bod cynnwys teuluoedd hefyd yn gonglfaen i ymagwedd Reggio Emilia, gan feithrin ymdeimlad cryf o gymuned a chyfrifoldeb addysgol a rennir.

Er ei fod yn ddylanwadol iawn mewn addysg plentyndod cynnar yn fyd-eang, nid model y gellir ei ailadrodd yw Reggio Emilia ond yn hytrach mae'n athroniaeth gyd-destunol sydd yn gofyn am addasiadau diwylliannol (Chicken, 2023). Aiff Chicken (2023) ymlaen i nodi fod ei hegwyddorion yn herio normau pedagogaid confensiynol, yn enwedig y rhai sydd yn ffafrio profion safonol a chwricwla rhagnodol. Fodd bynnag, mynna Guo a Rouse (2024) er ei fod yn cynnig posibilïadau trawsnewidiol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, yn enwedig mewn cyd-destunau fel Cymru sydd yn anelu at

wreiddio addysgeg gyfannol a chreadigol, mae Reggio Emilia hefyd yn gofyn am newidiadau systemig a diwylliannol sylweddol ar gyfer ei weithredu yn ystyrlon.

Trosolwg o'r Cwricwlwm i Gymru:

Mae'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024 a) yn nodi gwyriad radical oddi wrth gwricwla traddodiadol, gan geisio darparu system addysg sydd yn fwy hyblyg, integredig ac sydd yn canolbwyntio ar y dysgwr. Cytuna Llywodraeth Cymru (2022 a) trwy ychwanegu ei fod wedi'i strwythuro o amgylch pedwar diben, mae'n anelu at ddatblygu dysgwyr sydd yn uchelgeisiol a galluog, yn fentrus ac yn greadigol, yn foesebol a gwybodus, ac yn iach ac yn hyderus. Ateir y nodau hyn gan y chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gyda'r Celfyddydau Mynegiannol yn un ohonynt, gan amlygu pwysigrwydd creadigrwydd wrth lunio unigolion cyflawn (Llywodraeth Cymru, 2024 b).

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ôl Llywodraeth Cymru (2024 a) yn darparu fframwaith yn hytrach na rhaglen ragnodol, sydd yn rhoi annibyniaeth i ysgolion gynllunio cwricwlwm sydd yn ymateb i anghenion a chyd-destunau eu dysgwyr. Yn ganolog i'r cwricwlwm mae'r pwyslais ar asiantaeth dysgwyr, dysgu rhyngddisgyblaethol, a pherthnasedd byd go iawn (OECD, 2020). Ychwanega Duggan *et al.*, (2022) caiff dysgu trwy'r cwricwlwm ei brofi fel continwwm o 3 i 16 oed, gan symud i ffwrdd o gyfnodau allweddol anhyblyg, a thrwy hynny mae'n meithrin dilyniant dros amser yn hytrach na chyrhaeddiad ar adegau penodol.

O fewn y Maes Dysgu a Phrofiad 'Y Celfyddydau Mynegiannol', anogir dysgwyr yn ôl Llywodraeth Cymru (2017) i archwilio a myfyrio ar ffurfiau celf amrywiol ac i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, mynegiant a gwerthfawrogiad beirniadol. Dywed Estyn (2023), nod y maes hwn yw meithrin dychymyg, gwreiddioldeb a mynegiant personol, gan alinio â phwyslais ehangach y cwricwlwm ar greadigrwydd.

At hynny, mae'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2024 a) yn annog symudiad addysgegol tuag at ddysgu sydd yn seiliedig ar ymholi, sydd yn canolbwyntio ar chwarae ac wedi'i adeiladu ar y cyd. Cytuna Duggan *et al.*, (2022) bod athrawon yn cael eu rhagweld fel hwyluswyr yn hytrach na hyfforddwyr trwy'r cwricwlwm i Gymru, ac anogir cydweithio ar draws disgyblaethau. Serch hynny, yn ôl Hutt, Smith a Jones (2024) mae gweithredu gweledigaeth mor uchelgeisiol yn gofyn am ddatblygiad proffesiynol, newid diwylliannol ac adnoddau digonol. Mae llwyddiant y cwricwlwm yn

ôl Chicken (2023) yn dibynnu ar allu ysgolion ac ymarferwyr i gofleidio'r rolau a'r addysgeg newydd hyn, gan amlygu'r synergeddau a'r heriau posibl wrth fabwysiadu dulliau gweithredu fel Reggio Emilia.

Asiantaeth:

Dywed Manyukhina a Wyse (2019) bod asiantaeth mewn termau addysgol yn cyfeirio at allu dysgwyr i weithredu'n bwrpasol ac yn adeiladol i gyfeirio eu dysgu eu hunain. Cytuna Driver, Larsen-Freeman a Mercer (2021) ei fod yn cwmpasu ymreolaeth, gwneud penderfyniadau a pherchnogaeth ar brosesau dysgu. Mynna Chicken (2023) bod dull Reggio Emilia a Chwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais sylweddol ar asiantaeth, er eu bod wedi'u fframio o fewn patrymau diwylliannol a strwythurol gwahanol.

Yn Reggio Emilia, mae'r asiantaeth yn sylfaenol. Credir Reggio Emilia Approach (2022) bod y plentyn yn cael ei ystyried yn gyfranogwr gweithredol yn ei daith ddysgu, sydd yn gallu ysgogi, llunio a thrafod ystyr o fewn cyd-destun cymdeithasol. Yn debyg, mynna Fernandez-Santin a Feliu-Torruella (2020) bod prosiectau dysgu yn deillio o ddiddordebau a chwestiynau plant, ac mae athrawon yn gweithredu fel cyd-ymchwilyr, gan lunio amgylcheddau a phryfocion sydd yn cefnogi archwilio dwfn. Anogir plant yn ôl Chicken *et al.*, (2024) i fynegi eu syniadau mewn ffyrdd lluosog, ac mae eu lleisiau yn rhan annatod o lunio cynnwys a chyfeiriad y cwricwlwm.

Yn yr un modd, dywed Chicken *et al.*, (2024) mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ceisio gosod dysgwyr wrth wraidd profiad addysgol. Cytuna Llywodraeth Cymru (2024 a) wrth ychwanegu bod asiantaeth yn amlwg yn yr alwad i ysgolion ddylunio cwricwlwm sydd yn ymateb i ddiddordebau ac anghenion dysgwyr, ac mewn arferion addysgeg sydd yn annog ymholi a chyd-adeiladu. Mynna Llywodraeth Cymru (2024 a) mae pwyslais y cwricwlwm ar asesu ffurfiannol a dilyniant yn tanlinellu ymrwymiad i lwybrau dysgu personol, gan alluogi dysgwyr i gael dweud eu dweud am sut maent yn dysgu ac arddangos dealltwriaeth.

Fodd bynnag, mae troi'r dyhead hwn yn ymarferol yn cyflwyno heriau. Awgryma Miles (2022) yng Nghymru, gall diwylliannau sydd wedi'u gwreiddion yn ddwfn o atebolrwydd, safoni a metrigau perfformiad gyfyngu ar asiantaeth dysgwyr gwirioneddol. Adeilada Poulton (2020) ar hyn drwy nodi gall athrawon ei chael hi'n

anodd cydbwysu rhyddid y cwricwlwm â disgwyliadau fframweithiau asesu, gan arwain at wanhau arferion sydd yn canolbwyntio ar asiantaeth. Ar ben hynny, mae datblygiad proffesiynol yn hanfodol i arfogi addysgwyr â'r sgiliau a'r hyder i gyflawni addysgeg o'r fath yn ystyrlon (AbdulRab, 2023). Yn yr un modd, dywed Poulton (2020) er gwaethaf diwygiadau diweddar, mae dal yna pwysau am ganlyniadau amlwg a dilyniant tystiolaethol.

Dywed Chicken (2023) gall y gofyniad i olrhain cynnydd dysgwyr yn erbyn camau cynnydd diffiniedig wrthdaro â phrosiectau Reggio Emilia sydd yn digwydd dan arweiniad y plentyn ac sydd gyda natur benagored lle mae canlyniadau dysgu yn dod i'r amlwg ac yn aml yn anrhagweladwy. Awgryma Castro-Kemp a Kemp (2025) bod y tensiwn yma wedi'i nodi mewn beirniadaethau ar fylchau polisi-arfer, gydag ymchwilwyr yn dadlau bod athrawon yn aml yn cael eu dal rhwng yr awydd i anrhydeddu asiantaeth plant a'r angen i gynhyrchu data mesuradwy ar gyfer arolygu ac adrodd. Rhybuddia Chicken *et al.*, (2024) mewn hinsawdd o'r fath, mae'r risg o fabwysiadu egwyddorion Reggio yn tocenistaidd neu'n symbolaidd yn cynyddu, lle mae llais y dysgwr yn cael ei efelychu yn hytrach na'i ddeddfu'n wirioneddol.

Mae model athro-fel-ymchwilydd Reggio Emilia yn cynnig cipolwg ar hunaniaeth ac arfer proffesiynol a allai lywio'r cyd-destun Cymreig. Mynna Llywodraeth Cymru (2024 a) bod y model yma yn hyrwyddo arfer myfyriol, ymholi cydweithredol, a dysgu proffesiynol parhaus, gan alinio â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer system ysgolion sydd yn hunan-wella. Fodd bynnag, mae gweithredu model o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn amser, hyfforddiant a newid diwylliannol. Mae'n bosibl na fydd strwythurau presennol yn ysgolion Cymru bob amser yn cefnogi dyfnder y cynllunio cydweithredol a'r myfyrio y mae dull Reggio yn ei olygu (Chicken, 2023).

Aiff Giamminuti, Merewether a Blaise (2020) ymlaen i nodi bod her paratoi athrawon a hunaniaeth broffesiynol yn gwaethygu'r mater hwn ymhellach gan ychwanegu bod addysgwyr Reggio yn cael hyfforddiant helaeth ac yn gweithredu o fewn strwythurau colegol sydd yn cefnogi arbrofi, deialog fyfyril, a chyd-ymchwil. I'r gwrthwyneb, mynna Estyn (2023) mae llawer o athrawon yng Nghymru, er eu bod wedi rhoi mwy o ymreolaeth broffesiynol yn ddamcaniaethol o dan y cwricwlwm newydd yn adrodd nad ydynt yn teimlo'n ddigon parod i lywio'r ffordd amwys o gynllunio a arweinir gan ddysgwyr. Heb fuddsoddiad parhaus mewn datblygiad proffesiynol a newid mewn

diwylliant proffesiynol yn ôl Schneider *et al.*, (2024) mae ymdrechion i gyflwyno arferion a ysbrydolwyd gan Reggio mewn perygl o orlwytho addysgwyr neu leihau addysgeg gymhleth i restrau gwirio rhagnodol. Adleisir hyn yn ymchwil Kay (2024) sydd yn amlygu diffyg hyder ac eglurder cysyniadol ymhlith ymarferwyr sydd yn ceisio rhoi dysgu sydd yn canolbwyntio ar y plentyn ar waith o fewn cyfyngiadau biwrocrataidd.

Yn ogystal, gall pwyslais Reggio Emilia ar brosiectau hirdymor sydd yn cael eu hysgogi gan ddiddordebau plant achosi heriau logistaidd a chwricwlaidd mewn lleoliadau sydd yn gyfarwydd â chynllunio mwy llinol sy'n seiliedig ar ganlyniadau (Giamminuti, Merewether a Blaise, 2020). Ychwanegir Maynard a Chicken (2010) gall athrawon yng Nghymru wynebu tensiynau rhwng asiantaeth faethu a bodloni gofynion neu ddisgwyliadau ehangach y cwricwlwm gan rieni ac arolygwyr.

Dywed Guo a Rouse (2024) bod ymgysylltu teuluol a chymunedol yn faes arall lle mae Reggio Emilia yn rhagori mewn asiantaeth faethu. Ystyrir rhieni yn bartneriaid yn y broses ddysgu, gan gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm a gwerthuso (Rigney *et al.*, 2020). Mewn cyferbyniad, er bod Y Cwricwlwm i Gymru yn annog cyfranogiad rhieni, nid yw'n disgrifio model cyfranogol i'r un graddau, yn ôl Tyrie a Brinn (2025). Mae hwn yn faes twf posibl ar gyfer ysgolion Cymru sydd yn ceisio adeiladu amgylcheddau cynhwysol sydd yn cefnogi asiantaeth.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae hyblygrwydd a gweledigaeth gyfannol Cwricwlwm i Gymru yn darparu tir ffrwythlon ar gyfer sefydlu arferion a ysbrydolwyd gan ddull Reggio Emilia. Mae ysgolion peilot sydd wedi croesawu prosiectau sydd yn cael eu harwain gan ddysgwyr, yn cynnwys ymholi penagored a'r celfyddydau mynegiannol integredig wedi adrodd am fwy o ymgysylltiad, cymhelliant a pherchnogaeth ymhlith dysgwyr (Estyn, 2024).

I gloi, mae dull Reggio Emilia a'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod asiantaeth dysgwyr wrth galon ymarfer addysgol. Er bod aliniad damcaniaethol yn bodoli, mae gweithredu ymarferol yn gofyn am lywio'n ofalus y cyfyngiadau systemig, disgwyliadau diwylliannol ac anghenion datblygiad proffesiynol. Mae Reggio Emilia yn darparu model pedagogaid cadarn a all ysbrydoli arferion sydd yn canolbwyntio ar asiantaeth yng Nghymru, ond mae ei fabwysiadu yn gofyn am gefnogaeth strwythurol ac ymrwymiad parhaus gan lunwyr polisi, ysgolion, ac ymarferwyr fel ei gilydd.

Creadigrwydd a'r Celfyddydau Mynegiannol

Mynna Guo a Rouse (2024) bod creadigrwydd a'r celfyddydau mynegiannol wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn y dull Reggio Emilia yn ogystal â'r Cwricwlwm i Gymru. Cytuna Fernandez-Santin a Feliu-Torruella (2020) a Llywodraeth Cymru (2020) bod pob un yn gweld mynegiant creadigol nid yn unig fel ymdrech esthetig ond fel elfen ganolog o ddatblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol.

Dywed Manera (2022) o fewn Reggio Emilia, mae creadigrwydd yn cael ei weld fel ffordd o wybod. Cytuna Mphahlele (2019) gan nodi fod y cysyniad o'r "can ieithoedd" yn adlewyrchu'r gred bod plant yn cyfathrebu ac yn adeiladu ystyr trwy lu o ffurfiau mynegiannol: arlunio, cerddoriaeth, cerflunio, symud, adrodd straeon, a mwy. Awgryma Vecchi (2010) nid yw mynegiant artistig wedi'i gyfyngu i faes pwnc ond mae wedi'i blethu ar draws y cwricwlwm fel modd o archwilio a chynrychioli. Dywed Giamminuti a Merewether (2022) bod Atelieritas, neu addysgwyr celf arbenigol, yn gweithio ochr yn ochr ag athrawon i gefnogi'r archwiliadau hyn, gan wneud y celfyddydau yn biler dysgu canolog.

Yn debyg, mae'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020) yn rhannu'r weledigaeth integredig hon trwy ei Maes Dysgu a Phrofiad: 'Celfyddydau Mynegiannol', sydd yn cwmpasu pum disgyblaeth: celf, dawn, drama, ffilm a chyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Awgryma Llywodraeth Cymru (2020) bod y cwricwlwm yn hyrwyddo dysgu rhyngddisgyblaethol ac yn annog dysgwyr i fynegi syniadau ac emosiynau, datrys problemau'n greadigol, a gwerthfawrogi ffurfiau diwylliannol amrywiol. Adeilada Llywodraeth Cymru (2020) ar hyn drwy nodi nid yw'r celfyddydau mynegiannol yn cael eu hystyried yn sgiliau ynysig ond yn offer hanfodol ar gyfer hunan ddarganfod a chreu ystyr.

Fodd bynnag, mae rhwystrau i weithredu'r weledigaeth hon yn parhau. Nodir Estyn (2023) er gwaethaf cefnogaeth polisi, mae amrywiaeth yng ngallu ysgolion i gyflwyno addysg celfyddydau mynegiannol o ansawdd uchel, yn aml oherwydd cyfyngiadau adnoddau, diffyg staff arbenigol, a phwysau cwricwlaidd sydd yn cystadlu â'i gilydd. Cytuna Nugent a Deacon (2022) wrth ddweud mewn llawer o ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, mae addysg gelfyddydol yn agored i gael ei gwthio i'r cyrion, yn enwedig pan nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chanlyniadau asesu.

Yn yr un modd, nodir Chicken (2023) mae cyfieithu arferion o'r fath a rhai Reggio Emilia i'r cyd-destun Cymreig ymhell o fod yn syml.

Un rhwystr yn ôl Llywodraeth Cymru (2024 a) yw prinder adnoddau a chymorth seilwaith ar gyfer dysgu seiliedig ar y celfyddydau. Er bod Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion yn y modd y maent yn cynllunio profiadau dysgu, mae'r annibyniaeth hon yn ôl Sinnema, Nieveen a Priestley (2020) wedi'i chyfyngu gan gyfyngiadau cyllidebol, amgylcheddau ffisegol, a gofynion cwricwlaid cystadleuol. Adeilada Maynard a Chicken (2010) ar hyn gan ychwanegu nid oes gan lawer o ysgolion Cymru fynediad i'r gofodau stiwdio bwrpasol neu staff arbenigol sydd yn sail i'r model atelier o fewn dull Reggio Emilia. O ganlyniad, dywed Gabriel (2023) gall y celfyddydau mynegiannol gael eu gwthio i'r cyrion, yn enwedig mewn cyd-destunau lle mae llythrennedd a rhifedd yn parhau i ddominyddu metrigau atebolrwydd. Mae hyn yn adleisio pryderon a godwyd yn astudiaeth Cooke (2024) a ganfu fod addysgeg greadigol yn aml yn cael ei gwthio i'r cyrion oherwydd risgiau canfyddedig ynghylch cyrhaeddiad.

Nodir Manera (2022) bod Reggio Emilia yn cynnig model cymhellol ar gyfer ail-ddychmygu addysg gelfyddydol gydag Giamminuti a Merewether (2022) yn ychwanegu bod amlygrwydd atelierista yn dangos gwerth rolau arbenigol wrth feithrin creadigrwydd. Gallai ysgolion Cymru yn ôl Richards a Hadaway (2020) elwa o rolau neu bartneriaethau tebyg gydag artistiaid a sefydliadau diwylliannol, er y byddai hyn yn gofyn am fuddsoddiad a chynllunio strategol. At hynny, dywed Fernandez-Santin a Feliu-Torruella (2020) mae dull Reggio Emilia yn gosod creadigrwydd o fewn proses gymdeithasol, gydweithredol a myfyriol. Mae gwaith artistig yn aml ar y cyd, gan alluogi plant i drafod ystyr a rhannu dehongliadau. Cytuna Llywodraeth Cymru (2020) bod hyn yn cyd-fynd yn dda â phwyslais Y Cwricwlwm i Gymru ar ddysgu cydweithredol a datblygiad cymdeithasol. Cytuna Sorzio a Campbell-Barr (2019) ymhellach trwy nodi bod dogfennu prosesau creadigol yn gwasanaethu nid yn unig fel asesiad ond hefyd fel cyfrwng ar gyfer myfyrio ac ymholi pellach, arferion a allai wella strategaethau addysgeg yng Nghymru.

Awgryma Kneen *et al.*, (2020) bod datblygiad proffesiynol unwaith eto yn ffactor allweddol wrth nodi bod diffyg hyfforddiant neu hyder gan lawer o athrawon yng Nghymru i gyflwyno addysgeg yn seiliedig ar y celfyddydau, yn enwedig trwy gwricwla

integredig neu ddatblygol. Mynna Macy *et al.*, (2025) gallai tynnu ar fodelau dysgu proffesiynol parhaus wedi'u hysbrydoli gan Reggio Emilia sydd yn pwysleisio dysgu drwy brofiad, ymarfer stiwdio, a deialog fyfyrion helpu i feithrin gallu a hyder.

Mae'r amgylchedd ffisegol hefyd yn chwarae rhan arwyddocaol wrth feithrin creadigrwydd yn ôl Fan a Cai (2022). Mae ystafelloedd dosbarth Reggio yn ôl Dominguez (2024) wedi'u cynllunio i fod yn bleserus yn esthetig, yn gyfoethog mewn deunyddiau, ac yn ffafriol i archwilio. Nodir Estyn (2024), curadur gofodau i wahodd rhyfeddod ac arbrofi a dywed er bod Cwricwlwm i Gymru yn annog defnydd ystyriol o amgylcheddau dysgu, efallai nad oes gan ysgolion y seilwaith na'r cymorth i drawsnewid eu gofodau yn y modd hwn.

Ar ben hynny, dywed Fernandez-Santin a Feliu-Torruella (2020) mae llwyddiant celfyddydau mynegiannol wedi'u hysbrydoli gan Reggio yn dibynnu'n helaeth ar duedd ddiwylliannol tuag at ansicrwydd, bod yn agored, a dysgu sydd yn canolbwyntio ar brosesau. Mewn cyferbyniad, nodir Southern (2019) gall dylanwad gweddilliol perfformiad ac addysg sydd yn seiliedig ar gynnyrch yng Nghymru arwain at ailwampio canlyniadau ar draul creadigrwydd archwiliadol. Yn yr un modd, mynna Guo a Rouse (2024) bod dogfennaeth sef un o gonglfeini ymarfer Reggio, yn aml yn cael ei chamddeall neu ei cham-gymhwyso, wedi'i lleihau i arddangosfeydd deniadol yn hytrach nag offer adlewyrchol ar gyfer addysgeg. Roedd Dahlberg *et al.*, (2019) yn rhybuddio yn erbyn "esthetegiddio" dogfennaeth o'r fath, gan ddadlau ei fod mewn perygl o guddio anghydraddoldebau a thawelu lleisiau amgen.

Mae mater cynhwysiant hefyd yn haeddu sylw beirniadol. Tra bod Reggio Emilia yn hyrwyddo asiantaeth plant cyffredinol, mae beirniaid wedi dadlau y gallai ei harferion yn ddarwybod roi ffrainc i rai grwpiau diwylliannol neu economaidd-gymdeithasol (Chicken, 2023). Mae Farndale a Reichelt (2023) yn nodi y gall plant o gefndiroedd anghyfarwydd â dysgu ymddiddanol, sydd yn seiliedig ar ymholiad ei chael hi'n anodd cael mynediad at yr un cyfleoedd i gyfranogi, yn enwedig os nad yw addysgwyr yn gyfarwydd â repertoires cyfathrebol amrywiol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor deg yw'r model Reggio Emilia pan gaiff ei drawsblannu i gymunedau mwy amrywiol neu ddifreintiedig yng Nghymru, ac a oes angen sgaffaldiau ychwanegol i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu elwa ar ei ddulliau gweithredu.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae dull Reggio Emilia yn bryfociad cyfoethog i addysgwyr Cymru sydd yn ceisio gwireddu gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru. Mae ei aliniad athronyddol yn amlwg, yn enwedig yn ei bwyslais ar addysg ddemocrataidd, dysgu amlfodd ac ymarfer myfyriol. Fodd bynnag, mae gwireddu ei botensial yn gofyn am fwy nag aliniad cwricwlaidd; mae'n gofyn am gefnogaeth systemig, newid diwylliannol, a meithrin gallu proffesiynol. Fel y dadleua Moss (2014), nid yw trawsnewid addysgol yn fater o fabwysiadu modelau yn gyfan gwbl, ond yn hytrach o gymryd rhan mewn “arbrofi deialogaidd” sydd yn anrhydeddu cyd-destunau lleol ac yn herio rhagdybiaethau sydd wedi'u hen sefydlu. Er gwaethaf heriau, mae'r synergedd rhwng Reggio Emilia a'r Cwricwlwm i Gymru yn sylweddol, gan gynnig llwybr at addysg gelfyddydol drawsnewidiol sydd yn canolbwyntio ar y dysgwr.

Bydd cydlynid polisi yn hollbwysig yn hyn o beth. Rhaid darparu adnoddau ar gyfer ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ddysgu proffesiynol, a amlinellir yn y Dull Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2022 b), a'u gweithredu mewn ffyrdd sydd yn meithrin ymholi cydweithredol ac arloesi pedagogaidd. Rhaid i fframweithiau arolygu a mecanweithiau ariannu gefnogi yn hytrach na chyfyngu ar gymryd risgiau creadigol. At hynny, gallai partneriaethau â sefydliadau celfyddydol, grwpiau cymunedol, a rhwydweithiau rhyngwladol helpu i bontio'r bwlch rhwng dyhead a gweithredu, gan gyfoethogi arfer tra'n ei angori mewn diwylliant ac iaith leol.

Casgliad:

I gloi, mae dull Reggio Emilia a'r Cwricwlwm i Gymru yn rhannu ymrwymiad dwys i asiantaeth dysgwyr, creadigrwydd ac addysg gyfannol. Mae'r traethawd hwn wedi archwilio'n feirniadol y croestoriadau athronyddol ac ymarferol rhwng y ddau, gan ganolbwyntio ar asiantaeth a'r celfyddydau mynegiannol. Er bod yr aliniad yn gryf yn gysyniadol, mae trosi'r egwyddorion hyn yn ymarferol yn gofyn am oresgyn rhwystrau sylweddol sydd yn ymwneud â pholisi, adnoddau a datblygiad proffesiynol.

Mae Reggio Emilia yn darparu model addysgegol cyfoethog a all ysbrydoli a llywio darpariaeth Y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig wrth feithrin dysgu ystyrlon, creadigol ac ymreolaethol. Fodd bynnag, mae ei fabwysiadu yn gofyn am newid diwylliannol mewn gwerthoedd a strwythurau addysgol. Drwy fuddsoddi mewn datblygiad athrawon, rhoi gwerth ar y celfyddydau, a chroesawu dysgu wedi'i greu ar y cyd, gall Cymru symud tuag at gwricwlwm sydd nid yn unig yn bodloni dyheadau polisi ond sydd yn trawsnewid arfer addysgol.

Wrth wneud hynny, gall y weledigaeth o addysg sydd yn canolbwyntio ar y plentyn, yn llawn mynegiant ac yn llawn asiantaeth, rhywbeth a rennir gan Reggio Emilia a'r Cwricwlwm i Gymru fod yn realiti byw yn ystafelloedd dosbarth Cymru.

Rhestr Cyfeirnod:

AbdulRab, H. (2023) 'Teacher Professional Development in the 21st Century', *African Journal of Education and Practice*, 9(4), tt. 39-51. Ar gael o: <https://doi.org/10.47604/ajep.2237>

Cameron, A. (2022) 'Loris Malaguzzi and the Educational Project of Reggio Emilia, Italy', *The Palgrave Handbook of Educational Thinkers*, tt. 1-15. Ar gael o: DOI:10.1007/978-3-030-81037-5_214-1

Castro-Kemp, S. a Kemp, P. (2025) 'Ofsted inspection reports in early childhood education settings narrowly focussed: A corpus and sentiment analysis', *Journal of Early Childhood Research*. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/1476718X241306859>

Cooke, M. (2024) 'Conceptualising risk-taking in educational settings for enabling pedagogies of courage', *Contemporary Issues in Early Childhood*. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/14639491241260919>

Chicken, S. (2023) "Doing Reggio?' Exploring the complexity of 'curriculum' migration through a comparison of Reggio Emilia, Italy and the EYFS, England', *Global Studies of Childhood*, 13(4), tt. 322-340. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/20436106211068041>

Chicken, S., Tur Porres, G., Mannay, D., Parnell, J., a Tyrie, J.(2024) 'Questioning 'voice' and silence: Exploring creative and participatory approaches to researching with children through a Reggio Emilian lens', *International Journal of Qualitative Studies in Education*, 37(4), tt. 1-18. Ar gael o: DOI: 10.1177/14687941241234299

Dahlberg, G., Moss, P., a Pence, A. (2019) *Beyond Quality in Early Childhood Education and Care: Languages of Evaluation*. 3ydd arg. London: Routledge.

Dominguez, G. (2024) 'The Beauty of the Unusual: An Architectural Inquiry into the Reggio Emilia Approach', *Interchange*, 55, tt. 383-403. Ar gael o: <https://doi.org/10.1007/s10780-024-09525->

Driver, P., Larsen-Freeman, D., Gao, X., a Mercer, S. (2021) *Learner Agency: Maximising Learner Potential*. Oxford: University Press.

Duggan, B., Thomas, H., Davies-Walker, M., Sinnema, C., Cole-Jones, J. a Glover, A. (2022) *Qualitative Research with Practitioners on Preparations for Curriculum and Assessment Reforms 2022: final report*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2022-06/qualitative-research-with-practitioners-on-preparations-for-curriculum-and-assessment-reforms-2022.pdf> (Darllenwyd: 16 Mai 2025).

Edwards, C., Gandini, L., a Foreman, G. (2012) *The Hundred Languages of Children: The Reggio Emilia Experience in Transformation*. 3ydd arg. Santa Barbara: Praeger.

Estyn (2023) *The Implementation of the Curriculum for Wales: An evaluative report*. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/2023/implementation-of-curriculum-for-wales/> (Darllenwyd: 14 Mai 2025).

Estyn (2024) *Schools supported to prepare for the Curriculum for Wales, but more practical help needed on design and delivery*. Ar gael o: <https://estyn.gov.wales/news/schools-supported-to-prepare-for-the-curriculum-for-wales-but-more-practical-help-needed-on-design-and-delivery/> (Darllenwyd: 13 Mai 2025).

Fan, M. A Cai, W. (2022) 'How does a creative learning environment foster student creativity? An examination on multiple explanatory mechanisms', *Current Psychology*, 41, tt. 4667-4676. Ar gael o: <https://doi.org/10.1007/s12144-020-00974-z>

Farndale, A. a Reichelt, V. (2023) 'Children's communicative capital: Promoting inclusive storying in a diverse preschool community through critical participatory action research', *Journal of Early Childhood Literacy*. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/14687984231221957>

Fernandez-Santin, M. a Feliu-Torruella, M. (2020) 'Developing critical thinking in early childhood through the philosophy of Reggio Emilia', *Thinking Skills and Creativity*, 37, tt. 1-10. Ar gael o: <https://doi.org/10.1016/j.tsc.2020.100686>

Gabriel, R. (2023) 'Framing arts education in school improvement policy', *Arts Education Policy Review*, 125(4), tt. 323-327. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/10632913.2023.2213452>

Giamminuti, S. a Merewether, J. (2022) 'The Reggio Emilia atelier as a place of disruption: remaking pedagogical alliances through aesthetics and experimentation', *Pedagogies: An International Journal*, 18(4), tt. 746-766. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/1554480X.2022.2106233>

Giamminuti, S., Giudici, C., Cagliari, P. a Strozzi, P. (2021) *The Role of the Pedagogista in Reggio Emilia*. Arg 1af. Oxon: Routledge.

Giamminuti, S., Merewether, J. a Blaise, M. (2020) 'Aestheticethical-political movements in professional learning: encounters with feminist new materialisms and Reggio Emilia in early childhood research', *Professional Development in Education*, tt. 1-13. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/19415257.2020.1862277>

Guo, K. a Rouse, E. (2024) 'Searching for evidence-based practice: A qualitative metasynthesis of the research on Reggio Emilia practices in Australian early years settings', *Australian Journal of Education*, 69(1), tt. 5-22. Ar gael o: DOI:10.1177/00049441241302831

Hanna, W. (2016) *The SAGE Encyclopedia of Contemporary Early Childhood Education The Role of the Arts in Reggio Emilia Approach*. Ar gael o: <https://doi.org/10.4135/9781483340333.N346> (Darllenwyd: 14 Mai 2025).

Hutt, M., Smith, K. a Jones, K. (2024) 'professional learning in education: policy and practice in Wales since devolution', *Wales Journal of Education*, 26(2), tt. 39-53. Ar gael o: <https://doi.org/10.16922/wje.26.2.4>

Llywodraeth Cymru (2017) *Expressive Arts AoLE*. Ar gael o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-07/expressive-arts-aole-december-2017.pdf> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru (2020) *Y Celfyddydau Mynegiannol*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/?utm> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru (2022 a) *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru (2022 b) *Dull cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/cynllunio-a-dylunio-dysgu-proffesiynol/dull-cenedlaethol-ar-gyfer-dysgu-proffesiynol/> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru (2024 a) *Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad-i-ganllawiau-cwricwlwm-i-gymru/> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Llywodraeth Cymru (2024 b) *Cwricwlwm i Gymru*. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Macy, M., Harshbarger, D., Burke, K. a Neukirch, E. (2025) 'Experiential learning in Reggio Emilia, Italy: Reflections from in-service and pre-service professionals', *Journal of Early Childhood Teacher*, tt. 1-23. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/10901027.2025.2493175>

Manera, L. (2022) 'Art and aesthetic education in the Reggio Emilia Approach', *International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/03004279.2022.2052230>

Manyukhina, Y. a Wyse, D. (2019) 'Learner agency and the curriculum: a critical realist perspective', *The Curriculum Journal*, 30(3), tt. 223-243. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/09585176.2019.1599973>

Maynard, T. a Chicken, S. (2010) 'Through a different lens: exploring Reggio Emilia in a Welsh context', *Early Years an International Journal of Research and Development*, 30(1), tt. 29-29. Ar gael o: DOI:10.1080/09575140903443000

Miles, J. (2022) *New framework for school improvement to focus on learner progression*. Ar gael o: <https://media.service.gov.wales/news/new-framework-for-school-improvement-to-focus-on-learner-progression?> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Moss, P. (2014) *Transformative Change and Real Utopias in Early Childhood Education*. Arg 1af. Oxon: Routledge.

Mphahlele, R. (2019) 'Exploring the role of Malaguzzi's 'Hundred Languages of Children' in early childhood education', *South African Journal of Childhood Education*, 9(1), tt. 1-10. Ar gael o: <https://doi.org/10.4102/sajce.v9i1.757>

Nugent, B. a Deacon, K. (2022) 'Seen and Heard: The Long-Term Impact of Arts Projects on Young People Living in Poverty', *Young*, 30(5), tt. 511-524. Ar gael o: <https://doi.org/10.1177/11033088221089183>

OECD (2020) *The future of education and skills 2030: Conceptual learning framework*. Ar gael o: <https://www.oecd.org/content/dam/oecd/en/about/projects/edu/education-2040/publications/commissioned-papers/Benander,%20R.pdf> (Darllenwyd: 13 Mai 2025).

Poulton, P. (2020) 'Teacher agency in curriculum reform: the role of assessment in enabling and constraining primary teachers' agency', *Curriculum Perspectives*, 40, tt. 35-48. Ar gael o: <https://doi.org/10.1007/s41297-020-00100-w>

Reggio Emilia Approach (2022) *Values*. Ar gael o: <https://www.reggiochildren.it/en/reggio-emilia-approach/valori-en/?utm> (Darllenwyd: 12 Mai 2025).

Richards, N. a Hadaway, S. (2020) 'Inter-professionalism between teachers and creative practitioners: Risk, exploration and professional identity – learning in situ and the impact on practice', *Contemporary Issues in Practitioner Education*, 2(1), tt. 38-52. Ar gael o: <https://doi.org/10.1080/25783858.2020.1834824>

Rigney, L-I., Sisson, J., Hattam, R. a Morrison, A. (2020) *Bringing culturally responsive pedagogies and Reggio Emilia education principles into dialogue*. Ar gael o: <https://www.unisa.edu.au/contentassets/5020f4529f3c4694a6068ee434f48889/2020-final-rigney-sisson-hattam-morrison.pdf> (Darllenwyd: 16 Mai 2025).

Rinaldi, C. (2022) *In dialogue with Reggio Emilia: Listening, researching and learning*. 2il arg. London: Routledge.

Roque, R. a Tamashiro, M. (2022) 'Making Learning Visible in Constructionist Learning Contexts', *Proceedings of the 21st Annual ACM Interaction Design and Children Conference*, tt. 69-81. Ar gael o: <https://doi.org/10.1145/3501712.3534093>

Schneider, B., Manetti, M., Rania, N., Tomas, J., Oliver, A., Coplan, R, a Taylor, Q. (2024) 'A longitudinal study of school adjustment among children attending Reggio-

inspired preschools', *International Journal of Behavioral Development*, 48(1), tt. 1-11.
Ar gael o: DOI: 10.1177/01650254231202705

Sinnema, C., Nieveen, N. a Priestley, M. (2020) 'Successful futures, successful curriculum: What can Wales learn from international curriculum reforms?', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 181–201. Ar gael o: <https://doi.org/10.1002/curj.17>

Sorzio, P. a Campbell-Barr, V. (2019) 'The Reggio Approach in Motion: Documenting Experiences, Reflecting on Practice, and Disseminating the Ideas', *Journal of Childhood Studies*, 44(5). Ar gael o: <https://doi.org/10.18357/jcs00019328>

Southern, A. (2019) 'The power of creative learning through the arts: Economic imperative or social good?', *Power and Education*, 11(2). Ar gael o: DOI:10.1177/1757743819845059

Tedeschi, M., Maccaferri, E. a Rabotti, A. (2021) 'The Hundred Languages of Digital in the Reggio Emilia Approach', *Journal of E-Learning and knowledge society*, 17(3), tt. 24-32. Ar gael o: <https://doi.org/10.20368/1971-8829/1135592>

Tyrie, J. a Brinn, M. (2024) *Can the Curriculum for Wales and 'cynefin' enable children's participative rights in schools?* Ar gael o: <https://www.bera.ac.uk/blog/can-the-curriculum-for-wales-and-cynefin-enable-childrens-participative-rights-in-schools> (Darllenwyd: 15 Mai 2025).

Kay, L. (2024) *Identifying tensions between school readiness policy and teacher beliefs, knowledge and practice in early childhood education.* Ar gael o: <https://www.bera.ac.uk/blog/identifying-tensions-between-school-readiness-policy-and-teacher-beliefs-knowledge-and-practice-in-early-childhood-education?> (Darllenwyd: 16 Mai 2025).

Kneen, J., Breeze, T., Davies-Barnes, S., John, V. a Thayer, E. (2020) 'Curriculum integration: the challenges for primary and secondary schools in developing a new curriculum in the expressive arts', *The Curriculum Journal*, 31(2), tt. 258-275. Ar gael o: <https://doi.org/10.1002/curj.34>

Vecchi, V. (2010) *Art and Creativity in Reggio Emilia: Exploring the Role and Potential of Ateliers in Early Childhood Education.* Arg 1af. Oxon: Routledge.